# Credyd Cynhwysol: Cynyddu'r Cynnig Gofal Plant

Rhagfyr 2014

# Cynnwys

Cynnwys ........ 2
Cyflwyniad ........ 3
Y ddogfen hon ........ 4
Cymorth gyda Chostau Gofal Plant ........ 5
Cynnig gofal plant y Llywodraeth ........ 5
Ymatebion i'r ymgynghoriad ........ 6
Ariannu'r cynnydd........
Y rhyngweithio â Gofal Plant Di-dreth ........ 8
Symud rhwng y cynlluniau ........ 8
Defnyddio arian a gronnwyd ar gyfer gofal plant ........ 9
Camau Nesaf ........ 10

# Cyflwyniad

Mae Credyd Cynhwysol yn ddiwygiad unwaith mewn cenhedlaeth i'r system les. Budd-dal newydd ydyw i bobl sydd ar incwm isel neu sy'n ddi-waith a all gael ei hawlio, ar hyn o bryd, gan rai teuluoedd mewn rhannau penodol o'r wlad.

Gwaith yw'r llwybr gorau a mwyaf cynaliadwy allan o dlodi. Mae Credyd Cynhwysol yn cydnabod hyn a bydd yn

- sicrhau bod gwaith yn talu;
- meithrin annibyniaeth a chyfrifoldeb personol;
- dod â diweithdra di-syfl i ben mewn aelwydydd lle mae pobl wedi bod yn ddi-waith ers cyfnod hir;
- dileu'r gofyniad i hawlwyr weithio isafswm o 16 awr a, thrwy hynny, gefnogi'r aelwydydd mwyaf diamddiffyn;
- cynorthwyo mwy o aelwydydd i mewn i waith; a
- tyfu'r economi.

Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i gynorthwyo aelwydydd er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n gallu gweithio yn gweithio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o rieni sydd am wireddu uchelgeisiau o ran eu gwaith a'u gyrfa yn ei chael hi'n anodd gwneud hynny oherwydd costau gofal plant uchel.[1]

Mae Credyd Cynhwysol yn rhan allweddol o'r ystod eang o gymorth gofal plant sy'n cael ei gynnig i gannoedd o filoedd o deuluoedd sy'n gweithio, ochr yn ochr â Gofal Plant Di-dreth, 15 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar am ddim i blant ifanc cymwys, a pholisïau i wella argaeledd a fforddiadwyedd lleoedd gofal plant. Am y tro cyntaf, bydd rhieni yn cael cymorth gyda chostau gofal plant o dan Gredyd Cynhwysol ni waeth faint o oriau maent yn eu gweithio, a hynny yn ychwanegol at yr arian a gânt i helpu gyda chostau magu plentyn, ac unrhyw fudd-dal plant y gallent fod â hawl i'w gael.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cynyddu'r cymorth sydd ar gael gyda chostau gofal plant drwy Gredyd Cynhwysol o gymharu â'r system fudd-daliadau etifeddol, drwy ymestyn y cymorth hwnnw i rieni sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos am y tro cyntaf. Mae hyn yn golygu bod 100,000 o deuluoedd ychwanegol sy'n cael Credyd Cynhwysol eisoes yn cael cymorth gyda chostau gofal plant.

Y llynedd, bu'r Llywodraeth yn ymgynghori ar gynlluniau i ymestyn y cymorth a gynigir ymhellach drwy ofal plant. Gwnaethom wrando ar randdeiliaid a rhieni a oedd am sicrhau bod pob teulu sy'n gweithio yn cael cyfradd uwch o gymorth o dan Gredyd Cynhwysol. Felly, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fuddsoddi £350 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol er mwyn cynnig cymorth o hyd at 85% o gostau gofal plant i bob teulu sy'n gweithio ac sy'n cael Credyd Cynhwysol, hyd at uchafswm misol, o 2016. Mae hyn yn uwch na'r gyfradd bresennol o hyd at 70% a gynigir o dan y systemau Credyd Treth a Chredyd Cynhwysol.

Mae rhoi mwy o gymorth gyda chostau gofal plant yn rhan bwysig o nod y Llywodraeth o gynorthwyo mwy o aelwydydd i mewn i waith a threchu tlodi plant, ac mae'n rhan ganolog o Gredyd Cynhwysol gan y bydd yn helpu i ddileu'r rhwystrau at waith ac yn sicrhau bod gwaith

[1] Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant, Arolwg Costau Gofal Plant 2014

yn talu. Bydd tua 500,000 o deuluoedd sy'n gweithio yn cael help gyda gofal plant o dan Gredyd Cynhwysol. Bydd pob un o'r teuluoedd hyn sy'n gweithio yn elwa ar y penderfyniad i gynyddu'r cymorth a roddir gyda chostau gofal plant o 70% i 85%, a byddant yn cael mwy allan o'r arian y maent yn ei ennill.

## Y ddogfen hon

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer costau gofal plant yn y Credyd Cynhwysol, yn cadarnhau y raddfa uwch o gymorth ar gyfer costau gofal plant sydd ar gael i bob teulu gweithio cymwys trwy Gredyd Cynhwysol.

Ym mis Awst 2013, cyhoeddodd Trysorlys EM a CThEM ddogfen ymgynghori a oedd yn ceisio barn ar y broses o gynllunio a gweithredu Gofal Plant Di-dreth[2]. Gwahoddodd yr ymgynghoriad sylwadau ar y cynnig arfaethedig i gynyddu'r cymorth gofal plant sydd ar gael o dan Gredyd Cynhwysol o 70% i 85% ar gyfer aelwydydd sy'n talu treth incwm.Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Trysorlys EM a CThEM ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio ar y cynllun Gofal Plant Di-dreth, a chyhoeddwyd y byddai'r gyfradd uwch o 85% o gymorth yn cael ei hymestyn i bob teulu sy'n gweithio ac sy'n hawlio Credyd Cynhwysol[3].

Amlinellir y cynnig gofal plant estynedig yn yr adroddiad hwn, ynghyd â chrynodeb o fesurau a fydd yn sicrhau Credyd Cynhwysol a Gofal Plant Di-dreth yn ategu ei gilydd yn effeithioler budd y teuluoedd sy'n gweithio.

[2] Tax-Free Childcare: consultation on design and operation (Awst 2013)

[3] Delivering Tax-Free Childcare: the Government’s response to the consultation on design and operation (Mawrth 2014)

# Cymorth gyda Chostau Gofal Plant

## Cynnig gofal plant y Llywodraeth

Drwy ei chynllun economaidd hirdymor, mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i leihau diweithdra a thlodi plant, a chynorthwyo rhieni i symud i mewn i waith neu gynyddu eu henillion. Dywed rhieni a rhanddeiliaid wrthym mai un o'r rhwystrau mwyaf at waith i aelwydydd ar incwm isel yw costau gofal plant uchel, sy'n atal rhieni sy'n gweithio rhag gweithio mwy o oriau a chynyddu eu henillion.

Mae elfen costau gofal plant Credyd Cynhwysol yn rhan hollbwysig o gynnig ehangach y Llywodraeth ar ofal plant i deuluoedd ar incwm isel a chanolig. Mae Credyd Cynhwysol eisoes yn helpu i dalu 70% o gostau gofal plant teuluoedd cymwys sy'n gweithio, hyd at uchafswm misol. O 2016, bydd hyn yn codi i 85% o gostau gofal plant[4]. O ganlyniad, bydd mwy o rieni yn gallu symud i mewn i waith a chynyddu eu henillion, gan helpu eu teuluoedd i symud allan o dlodi ac oddi ar fudd-daliadau. Amcangyfrifir y caiff 500,000 o deuluoedd fudd o'r cymorth ychwanegol hwn. Daw'r arian i gynnig mwy o gymorth gyda chostau gofal plant o'r rhaglen Credyd Cynhwysol bresennol, fel y'i nodwyd yn Natganiad yr Hydref 2014.

**Blwch 1: Astudiaethau achos o hawliadau a dyfarniadau costau gofal plant**

**Enghraifft 1:** Mae gan bâr sy'n gweithio ddau blentyn sy'n 2 oed ac 8 oed. Er mwyn iddynt allu gweithio, mae eu plentyn ieuengaf yn cael gofal mewn meithrinfa 25 awr yr wythnos ac mae eu plentyn 8 oed yn treulio 15 awr mewn clwb ar ôl ysgol.

Mae'r feithrinfa yn costio £120 yr wythnos tra bod y clwb ar ôl ysgol yn costio £50 yr wythnos, sef cyfanswm o £737 y mis[5]. Maent yn rhoi gwybod am y taliadau ar y diwrnod y cânt eu talu ac, ar ddiwedd y cyfnod asesu misol, maent yn cael swm y Credyd Cynhwysol a ddyfernir iddynt, gan gynnwys yr elfen costau gofal plant.

Caiff swm y cymorth gofal plant ei gyfrifo fel 70% o £737 = £516

O 2016, caiff swm y cymorth gofal plant ei gyfrifo fel 85% o £737 = £626

Mae hyn yn is na'r uchafswm misol o gymorth gyda chostau gofal plant ar gyfer un plentyn.

**Enghraifft 2:** Mae gan riant unigol sy'n gweithio dri phlentyn 2, 5 a 9 oed. Mae'r plentyn ieuengaf yn cael 25 awr o ofal plant mewn meithrinfa bob wythnos. Mae'r plant hŷn yn cael 15 awr o ofal mewn clybiau ar ôl ysgol bob wythnos, ac mae gwarchodwr plant yn eu casglu o'r ysgol.

Y costau wythnosol yw £120 ar gyfer y feithrinfa, £50 ar gyfer pob plentyn mewn clwb ar ôl ysgol, a £70 ar gyfer eu casglu o'r ysgol. Y cyfanswm misol yw £1257, ac mae'r hawlydd yn rhoi gwybod i DWP am y taliadau ar ôl i bob un gael ei wneud. Ar ôl diwedd y cyfnod asesu, mae'r hawlydd yn cael swm y Credyd Cynhwysol a ddyfernir iddo, gan gynnwys yr elfen costau gofal plant.

Caiff swm y cymorth gofal plant ei gyfrifo fel 70% o £1257 = £880

O 2016, caiff swm y cymorth gofal plant ei gyfrifo fel 85% o £1257 = £1068

Mae hyn yn is na'r uchafswm misol o gymorth gofal plant ar gyfer dau blentyn neu fwy.

---

[4] Ar y gyfradd o 70%, yr uchafswm misol yw £532 ar gyfer un plentyn a £912 ar gyfer dau blentyn neu fwy. Ar ôl i'r gyfradd honno gynyddu i 85%, yr uchafsymiau misol fydd £646 a £1108 yn y drefn honno.

[5] Mae costau dangosol yn seiliedig ar gostau wythnosol cyfartalog yn ne-ddwyrain Lloegr. Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant, Arolwg Costau Gofal Plant 2014

Mae'r Llywodraeth eisoes yn gwario dros £1 biliwn ar gymorth gofal plant drwy Gredydau Treth, a gaiff eu disodli gan Gredyd Cynhwysol wrth iddo gael ei gyflwyno i deuluoedd ledled y DU. Caiff y Credyd hwn ei ategu gan nifer o fesurau eraill a fydd yn helpu aelwydydd i gael gafael ar ofal plant fforddiadwy.

- Yng Nghyllideb 2013, cyhoeddodd y Llywodraeth gynlluniau i gyflwyno Gofal Plant Di-dreth, a fydd yn cwmpasu 20% o gostau gofal plant hyd at uchafswm o £2000 fesul plentyn y flwyddyn, ar gyfer teuluoedd cymwys sy'n disgwyl ennill swm uwchlaw trothwy gofynnol lle nad yw'r naill riant na'r llall yn talu treth ar y gyfradd ychwanegol.
- Unwaith y bydd eu plentyn yn dair oed, bydd pob teulu yn gymwys i gael 15 awr o addysg blynyddoedd cynnar a ariennir bob wythnos, er mwyn helpu i baratoi eu plentyn ar gyfer yr ysgol.
- Bydd tua 40% o deuluoedd ar incwm is yn gallu manteisio ar 15 awr o addysg blynyddoedd cynnar a ariennir flwyddyn yn gynt, unwaith y bydd eu plentyn yn ddwy oed.

Gyda'i gilydd, bydd y polisïau hyn yn sicrhau y bydd pob teulu yn gallu manteisio ar gynnig addysg blynyddoedd cynnar am ddim, ac y bydd rhieni cymwys sy'n gweithio yn cael cymorth hyblyg wedi'i dargedu gyda chostau gofal plant sy'n ymateb yn effeithiol i newidiadau yn eu hamgylchiadau. Ochr yn ochr â'r mesurau hyn, mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyflwyno nifer o fesurau i wella argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant a'r dewis o ofal plant sydd ar gael drwy

- symleiddio'r system reoleiddio;
- annog ysgolion i gynnig cyfleusterau gofal ar ôl ysgol;
- creu asiantaethau gwarchod plant; a
- sicrhau bod arian ar gael i ddarparwyr gofal plant sy'n perfformio'n dda[6].

## Ymgynghoriad

Ym mis Awst 2013, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad i geisio barn ar Ofal Plant Di-dreth a chynigion i gynyddu'r cymorth a roddir gyda chostau gofal plant o dan Gredyd Cynhwysol, o 70% i 85%, ar gyfer aelwydydd sy'n talu treth incwm. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n buddsoddi £350 miliwn ychwanegol er mwyn cynnig mwy o gymorth gyda chostau gofal plant i <u>bob</u> teulu sy'n gweithio ac sy'n cael Credyd Cynhwysol, o 2016. Bydd cymorth gyda chostau gofal plant ar gael i hawlwyr sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos am y tro cyntaf. Disgwylir y bydd tua 500,000 o deuluoedd yn hawlio Credyd Cynhwysol pan fydd y broses o'i gyflwyno wedi'i chwblhau, a chaiff pob un ohonynt fudd o'r cymorth ychwanegol hwn.

[6] More Great Childcare – Raising quality and giving parents more choice (January, 2013): https://www.gov.uk/government/publications/more-great-childcare-raising-quality-and-giving-parents-more-choice

More Affordable Childcare (July 2013): https://www.gov.uk/government/publications/more-affordable-childcare

**Blwch 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad ar Gredyd Cynhwysol**

31. Sut y bydd y newid arfaethedig i Gredyd Cynhwysol yn effeithio ar bobl y mae eu henillion yn newid o fis i fis?

32. Y cynnig yw defnyddio enillion trethadwy gros fel dangosydd ar gyfer pobl sy'n ennill mwy na'r trothwy treth. Pa ddangosyddion eraill y gallai'r Llywodraeth eu defnyddio?

33. Mae'r Llywodraeth am sicrhau bod help yn cael ei dargedu at y rheini sydd ei angen fwyaf o fewn y cyfyngiadau ariannol y mae'n eu hwynebu. A ddylai pobl sy'n cael Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol Cyffredin, Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol, Tâl Mabwysiadu Statudol a Lwfans Mamolaeth fod â hawl i gael cymorth ar gyfradd o 85% ai peidio?

34. Pa wybodaeth y bydd angen i bobl ei chael er mwyn deall effaith y mesur ar eu hamgylchiadau eu hunain?

Mae Credyd Cynhwysol wedi'i gynllunio i symleiddio'r ffordd y caiff budd-daliadau eu rhoi i hawlwyr, ac i sicrhau bod gwaith yn talu. Mae'r Llywodraeth am sicrhau bod rhieni yn gallu dechrau gweithio neu gynyddu eu henillion, a'u bod yn hyderus y byddant bob amser yn well eu byd mewn gwaith nag ar fudd-daliadau. Trwy ddarparu hyd at 85% o gostau gofal plant i bob teulu gweithio cymwys yn hytrach na gosod isafswm enillion neu ofyniad oriau gwaith, bydd y Llywodraeth yn sicrhau y bydd rhieni sy'n gweithio yn gallu rhagweld lefel y gefnogaeth y byddant yn derbyn bob mis. Byddant felly yn gallu cynyddu eu henillion yn hyderus a byddant yn well eu byd, yn y pen draw yn symud oddi ar fudd-daliadau gan fod eu hincwm yn tyfu.

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i dargedu help at y sawl sydd ei angen fwyaf ond hefyd i sicrhau bod rhieni sydd am weithio yn gallu gwneud hynny. Felly, bydd y cymorth a roddir i dalu 85% o gostau gofal plant yn gymwys i bob hawlydd Credyd Cynhwysol sy’n cael Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol Arferol, Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol, Tâl Mabwysiadu Statudol a Lwfans Mamolaeth[7]. Bydd hyn yn galluogi rhieni i barhau â'u darpariaeth gofal plant yn ystod absenoldeb dros dro o'r gwaith, ac yn sicrhau'r broses drosglwyddo lyfnaf posibl yn ôl i'r gwaith os byddant yn penderfynu dychwelyd.

Mae'r Llywodraeth yn deall pwysigrwydd darparu hawlwyr â gwybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau[8]. Er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn gwybod faint y gallant ei hawlio o dan Gredyd Cynhwysol, a sut a phryd i wneud cais, mae’r Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau i weithio'n agos gydag Adrannau eraill y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol, rhanddeiliaid a rhieni, er mwyn sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu yn glir, yn hygyrch, ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol a chywir.

[7] Mae hyn yn berthnasol i cyplau sy’n hawlio lle mae'r ddau yn derbyn un o'r cymorthdaliadau hyn, neu lle mae un yn gweithio neu'n heithrio o'r gwaith ac mae'r llall yn derbyn un o'r taliadau cymorth hyn

[8] Details of the current work-related requirements for parents on Universal Credit can be found here: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/374508/uc-supports-families.pdf

# Y rhyngweithio â Gofal Plant Di-dreth

Yng Nghyllideb 2013, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i gyflwyno Gofal Plant Di-dreth i deuluoedd sy'n gweithio ac sy'n ennill mwy na'r trothwy gofynnol, lle nad yw'r naill riant na'r llall yn talu treth ar y gyfradd ychwanegol. Bydd y lefel ofynnol o incwm yn seiliedig ar riant yn gweithio wyth awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol - gan olygu y bydd rhieni yn gymwys os disgwylir iddynt ennill dros £52 yr wythnos ar gyfartaledd. Bydd Gofal Plant Di-dreth yn cwmpasu 20% o gostau gofal plant teuluoedd sy'n gweithio, hyd at derfyn blynyddol o £2,000 a gyfrennir gan y Llywodraeth fesul plentyn. Mae'r Llywodraeth yn amcangyfrif, unwaith y caiff ei gyflwyno'n llawn, y bydd 1.8 miliwn o deuluoedd yn gymwys i gael cymorth drwy Ofal Plant Di-dreth.

Wrth i deuluoedd symud i mewn i waith a chynyddu eu hincwm, gallant symud o Gredyd Cynhwysol i Ofal Plant Di-dreth, neu gallant ddewis 'cael eu heithrio' o Gredyd Cynhwysol a hawlio Gofal Plant Di-dreth yn lle hynny. Bydd y broses o gyflwyno Gofal Plant Di-dreth yn rhoi hyder i rieni y byddant, wrth i'w hincwm gynyddu, yn parhau i gael cymorth gan y Llywodraeth i dalu eu costau gofal plant. Roedd y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn glir y dylid rhoi pob cyfle i rieni symud rhwng y ddau gynllun, ac rydym am sicrhau ei bod mor syml â phosibl i wneud hynny.

Roedd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gynllunio a gweithredu Gofal Plant Di-dreth yn ymdrin yn fanwl â sylwadau ymatebwyr ar y rhyngweithio rhwng y ddau gynllun[9]. Nododd yr ymatebwyr fod angen i'r rhyngweithio fod yn llyfn ac na ddylai osod gormod o faich gweinyddol ar rieni. Ar yr un pryd, roedd yr ymatebwyr o blaid cynnig dewis i rieni o ran pa gynllun yr hoffent gymryd rhan ynddo, a'r hyblygrwydd i symud rhwng y cynlluniau.

Mae DWP yn parhau i weithio'n agos gyda CThEM i sicrhau bod y cynlluniau'n ategu ei gilydd yn effeithiol, a bod rhieni yn cael yr holl arweiniad sydd ei angen arnynt i wneud penderfyniad hyddysg ynghylch pa gynllun fydd yn eu cynorthwyo orau.

## Symud rhwng Credyd Cynhwysol a Gofal Plant Di-dreth

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall amgylchiadau teulu newid dros amser. Gall teuluoedd ar incwm isel brofi mwy o newidiadau mewn amgylchiadau na'r rhai sy'n ennill mwy, er enghraifft yn sgil cyflogaeth dros dro neu batrymau gwaith newidiol.

Er mai dim ond gan un cynllun y gall rhieni gael cymorth ar unrhyw adeg benodol, bydd gan deuluoedd y rhyddid i ddewis y cynllun sy'n diwallu eu hanghenion orau a'r gallu i symud yn hawdd rhwng cynlluniau wrth i'w hamgylchiadau newid. Yn hyn o beth, gall newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau gynnwys newid yng nghyfansoddiad yr aelwyd, fel hawlydd yn dod yn rhan o gwpl neu'n rhoi'r gorau i fod yn gyfrifol am blentyn, neu newid mewn statws cyflogaeth.

Os na cheir unrhyw newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau, gall rhieni barhau i adael Gofal Plant di-dreth ar unrhyw adeg, ond ni fydd yn gallu symud dro ar ôl tro rhwng y cynlluniau. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gan rieni y rhyddid i reoli eu harian yn annibynnol, a gwneud dewisiadau ynghylch sut i gael cymorth gofal plant wrth i'w hanghenion a'u hamgylchiadau newid.

[9] Delivering Tax-Free Childcare: the Government's response to the consultation on design and operation (Mawrth 2014), 2.67 – 2.74

**Blwch 3: Astudiaeth achos o hawlydd y mae ei amgylchiadau wedi newid**

Mr Singh - newidiadau mewn oriau gwaith

Mae Mr Singh yn rhiant unigol â dau o blant. Mae'n gweithio i asiant dai, ac mae'n gweithio 35 awr yr wythnos yn rheolaidd. Mae Mr Singh yn cofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-dreth ym mis Mai 2016.

Ar ddiwedd mis Mai 2016, caiff sifftiau Mr Singh eu lleihau i wyth awr yr wythnos. Byddai'n well ei fyd yn cael Credyd Cynhwysol, felly mae Mr Singh yn gwneud cais i'w gael.

Mae Mr Singh yn symud i Gredyd Cynhwysol oherwydd newid yn ei amgylchiadau personol.

Nid yw Mr Singh yn ailgadarnhau ei fod yn gymwys i gael Gofal Plant Di-dreth ar ddiwedd ei gyfnod hawlio chwarterol cyfredol, a daw ei daliadau 'ychwanegol' i ben ar yr adeg honno. Mae'n gallu defnyddio unrhyw arian sydd yn ei gyfrif i dalu darparwr gofal plant cymeradwy o hyd, ac ni chaiff y Credyd Cynhwysol a ddyfernir iddo ei addasu na'i leihau oherwydd yr arian hwn. Bydd yn cael cymorth i dalu hyd at 70% o'i gostau gofal plant (neu 85% o 2016), hyd at yr uchafswm misol.

## Defnyddio arian a gronnwyd ar gyfer gofal plant

Bydd  Gofal Plant di-dreth yn gweithredu ar gyfnod hawl chwarterol sefydlog. Unwaith y bydd rhiant yn bodloni'r amodau cymhwyster pan fyddant yn cofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-dreth ac yn agor cyfrif gofal plant, bydd cyfnod hawl o ryw dri mis yn dechrau; Bydd hawl yn rhedeg tan ddiwedd y cyfnod hwnnw. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i rieni y cânt ychwanegiadau ar gyfer y cyfnod cyfan heb ystyried unrhyw newidiadau annisgwyl yn eu hamgylchiadau.

Mae'r cyfnod hawlio chwarterol sefydlog o dan Ofal Plant Di-dreth yn golygu, pan fo rhieni wedi symud i Gredyd Cynhwysol, y gallent fod wedi cronni arian i'w wario ar ofal plant, neu y gall fod cyfnod cyfyngedig pan fo ganddynt yr hawl i gael cymorth o dan y ddau gynllun. O dan yr amgylchiadau hyn, ni fydd taliadau Gofal Plant Di-dreth yn effeithio ar ddyfarniadau Credyd Cynhwysol yn yr un cyfnod hawlio chwarterol.

Gall rhiant gronni arian yn ei gyfrif Gofal Plant Di-dreth, gan gynnwys y swm ychwanegol a ariennir gan y Llywodraeth. Os bydd rhiant yn rhoi'r gorau i hawlio Gofal Plant Di-dreth ac yn dechrau cael Credyd Cynhwysol cyn iddo wario'r balans a gronnwyd ganddo, bydd yn gallu defnyddio'r arian hwn am gyfnod o hyd at 24 mis ar ôl i'w gymhwysedd ar gyfer Gofal Plant Di-dreth ddod i ben[10]. Mae hyn yn sicrhau na fydd hawlwyr yn colli'r cymorth a gawsant yn flaenorol i dalu am ofal plant wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol.

Yn yr achosion hyn, gall rhieni ddefnyddio'r swm ychwanegol o Ofal Plant Di-dreth heb iddo effeithio ar swm y Credyd Cynhwysol a ddyfernir. Yn syml, byddant yn rhoi gwybod i DWP am eu costau gofal plant pan gânt eu talu, ac yn cael cymorth i dalu hyd at 70% (neu 85% o 2016) o'r costau hyn yn ôl yr arfer. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n hawdd i rieni gyfrifo'r cymorth gofal plant y mae ganddynt yr hawl i'w gael, ac yn sicrhau na fydd unrhyw un ar ei golled wrth newid cynlluniau.

Wrth gyfrifo hawl rhieni o dan y cynllun Credyd Cynhwysol, bydd y Llywodraeth yn ystyried cyfran o unrhyw arian a gronnwyd eisoes o dan y cynllun Gofal Plant Di-dreth. Caiff 20% o'r arian hwn, sy'n cynrychioli symiau ychwanegol y Llywodraeth, ei diystyru, ac felly ni fydd yn

[10] Lle mae'r plentyn wedi cyrraedd y terfyn oedran uchaf ar gyfer cymhwyster, bydd y cyfrif gofal plant yn aros ar agor am 12 mis

effeithio ar ddyfarniad yr hawlydd. Bydd yr 80% o'r arian sy'n weddill yn eiddo'n gyfan gwbl i'r hawlydd, ac felly caiff ei thrin fel cyfalaf at ddibenion cyfrifo faint o Gredyd Cynhwysol y bydd yn ei gael. Unwaith eto, bydd hyn yn sicrhau y caiff hawlwyr sy'n symud i Gredyd Cynhwysol fudd o'r cymorth a gawsant yn flaenorol, a'i bod mor syml â phosibl iddynt wneud hynny.

# Camau Nesaf

Mae'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn mynd rhagddi'n dda. Mae dros flwyddyn a hanner wedi mynd heibio ers iddo gael ei gyflwyno am y tro cyntaf ac rydym wedi gwneud cynnydd da gyda'r diwygiad arloesol hwn. Bellach, mae Credyd Cynhwysol ar gael i hawlwyr unigol a chyplau mewn dros 80 o Ganolfannau Gwaith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a bydd ar gael mewn bron i 100 o Ganolfannau Gwaith erbyn y Nadolig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi cynlluniau i'w gyflwyno ym mhob canolfan gwaith ac Awdurdod Lleol ym Mhrydain Fawr o ddechrau 2015.  Erbyn gwanwyn 2015, bydd 1 o bob 3 o Ganolfannau Gwaith yn cyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae'r gwaith o gyflwyno un o ddiwygiadau mwyaf y Llywodraeth wedi cyflymu'n sylweddol, ac rydym yn ymrwymedig i weithredu dull Profi a Dysgu gofalus er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio i deuluoedd, yn nodi pan fydd angen newid ac yn ymateb yn gyflym.

Awgryma tystiolaeth gynnar[11] fod Credyd Cynhwysol yn cael effaith gadarnhaol ar yr amser y mae hawlwyr yn ei dreulio yn chwilio am waith a'u bod yn treulio mwy o amser mewn gwaith. Mae hawlwyr, staff canolfannau gwaith a chyflogwyr yn gadarnhaol ynghylch y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan Gredyd Cynhwysol.

Mae’r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi pwysleisio ei hymrwymiad i lunio polisïau agored sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac mae'n parhau i ymgynghori'n eang ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, darparwyr gofal plant, Adrannau eraill y Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol ynghylch y broses o gynllunio a chyfathrebu'r cynnig Credyd Cynhwysol ar ofal plant, a'i roi ar waith. Yn dilyn ymgynghoriad ynghylch cynyddu'r cymorth a roddir i dalu costau gofal plant o 70% i 85% i deuluoedd sy'n talu treth incwm, gwrandawodd y Llywodraeth ar y mewnbwn a roddwyd gan randdeiliaid a chyhoeddodd y byddai'r gyfradd uwch o 85% yn cael ei hymestyn i <u>bob</u> teulu sy'n gweithio ac sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn fuddsoddiad ychwanegol o £400 miliwn mewn cymorth gofal plant i deuluoedd sy'n gweithio.

Bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau i sicrhau bod pob parti perthnasol yn gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am y broses barhaus o gynllunio Credyd Cynhwysol a'i roi ar waith. Bydd y Llywodraeth hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i lunio canllawiau i helpu rhieni (a phartïon eraill â diddordeb) i ddeall agweddau penodol ar Gredyd Cynhwysol, gan gynnwys sut y caiff y cymorth gyda chostau gofal plant ei ddarparu a'r rhyngweithio rhyngddo a ffynonellau cymorth eraill[12]. Hefyd, bydd canllawiau clir a dulliau cyfathrebu (a ddatblygwyd ar y cyd â rhanddeiliaid) yn helpu rhieni i ddeall yr hyn y mae ganddynt yr hawl i'w gael a'u cyfrifoldebau os ydynt yn ystyried gwneud cais, a sut i wneud hynny.

Bydd y dull agored a chydweithredol hwn o lunio polisi a'i roi ar waith yn sicrhau bod pob teulu cymwys sy'n gweithio yn ymwybodol o'r hyn y mae Credyd Cynhwysol yn ei gynnig o ran cymorth gofal plant a'r cymorth arall sydd ar gael gan y Llywodraeth i'w helpu i weithio.

[11] Universal Credit at Work (October 2014), https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-at-work

[12] Mae canllawiau drafft ar gyfer Gofal Plant Di-dreth wedi cael ei gyhoeddi ac mae ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/draft-legislation-tax-free-childcare-draft-guidance

Bydd hefyd yn sicrhau bod y broses o wneud cais, rhoi gwybod am gostau gofal plant, a chael cymorth pan fydd ei angen yn syml ac yn mynd rhagddi'n ddidrafferth.